

Crëwch Fygydau

Anifeiliaid y Jwngl Eich Hun

Oeddech chi'n gwybod bod coedwigoedd glaw trofannol yn gartref i 50% o'r anifeiliaid, pryfed a phlanhigion sy'n byw ar dir?

Bydd y canllaw hwn yn eich arwain chi drwy rywfaint o gamau syml i greu eich mygydau anifeiliaid eich hun i ddathlu rhai o'r creaduriaid rhyfedd a rhyfeddol y gellir dod o hyd iddynt yn y goedwig law. Bydd rhai o'r camau yn gofyn i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd, siswrn a glud, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gofyn i oedolyn am help os bydd ei angen arnoch. Beth am weld a allwch chi ail-ddefnyddio rhai deunyddiau, fel cardfwrdd bocs grawnfwyd, o'ch bin ailgylchu?

Y pethau y byddwch chi eu hangen:

- Rhywfaint o linyr neu ruban (digon hir i fynd o gwmpas eich pen)
- Papur
- Cardfwrdd
- Pensiliau, beiros neu greonau lliwio
- Sisyrrnau

Cam 1. Dewiswch o'r amlinelliadau mygydau sydd yn cael eu cyflwyno yma, a'u hargraffu. Dim argraffydd? Peidiwch â phoeni, daliwch ddarn o bapur ar y sgrîn, a dargopiwch amlinelliad y llun yn ofalus.

Cam 2. Gludwch eich stensil mwgwd ar gardfwrdd

Cam 3. Torrwch o amgylch y stensil i adael dim ond siâp yr anifail

Cam 4. Torrwch y llygaid allan fel eich bod chi'n gallu gweld

Cam 5. Lliwiwch eich mygydau i mewn, gludwch bethau arnyn nhw, ceisiwch gael hwyl a'u gwneud mor lliwgar a chreadigol â phosibl. Chwiliwch am eich anifail dewisol ar y rhyngrwyd am ysbrydoliaeth!

Cam 6. Defnyddiwch bensil i greu dau dwll coch.

Cam 7. Torrwch eich llinyn yn ei hanner a chlymwch gwlwm ym mhob darn, ar un pen. Yna, gwthiwch y llinynnau drwy'r tyllau. Gofynnwch i ffrind neu oedolyn i glymu'r mwgwd y tu ôl i'ch pen.

Cam 8. Gofynnwch i oedolyn dynnu llun ohonoch a'i rannu gyda Maint Cymru ar Twitter neu Facebook drwy dagio @sizeofwales a defnyddio'r hashtag #gogreenday

Lluniau'r mygydau o flaticon.com

Resource available at sizeofwales.org.uk/cy/addysg/adnoddau-addysg/













